PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 31/32 Awst 1/8, 2024 50c.



# SUL SBESIAL

## Cyfiawnder, Heddwch a Chosb: Dafydd Llywelyn

*Dyletswydd y Cristion yw protestio yn erbyn anghyfiawnder a hyrwyddo heddwch meddai Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys wrth annerch Sul Sbesial Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin yn Yr Egin S4C ar 14 Gorffennaf.*

'Ar draws hanes mae yna enghreifftiau o bobol sydd wedi ymladd dros gyfiawnder, pobol fel Martin Luther King,' meddai. 'Yn ei lyfr *A Gift of Love* mae e'n holi'r cwestiwn: 'Os nad dyn sy'n medru creu byd heddychol, ac nid Duw, felly pwy?' Duw trwy ddyn yw'r ateb, wrth gwrs. Ond mae rhaid i ni adael Duw i mewn a gadael iddo ein harwain ni yn ein gwaith. Ac mae hynny'n digwydd o ganlyniad i weithredu trwy arweiniad ein ffydd.



*Gwrando'n astud: cynulleidfa'r Sul Sbesial*

### Ein byd bregus

'Ystyriwch sefyllfa fregus ein byd heddiw, gydag arweinwyr gwledydd yn meddiannu tir, codi muriau o amgylch eu tiroedd, rhyfela, adeiladu byddinoedd a defnyddio grym gwyddoniaeth gydag arfau niwclear. Pryd ydyn ni'n clywed arweinwyr yn sôn am heddwch yng ngwir ystyr y gair? Yn rhyngwladol ac yn lleol maen nhw'n ceisio bwrw bai, a thanseilio gweithredoedd o estyn dwylo agored tuag at ffoaduriaid, er enghraifft. Os nad yw'r eglwys neu ni fel unigolion yn barod i ddweud "Na, nid yn ein henwau ni," pwy fydd yn sefyll dros y gwan ac yn gweithio tuag at heddwch?

### Carchardai gorlawn

'Yn ddiweddar rydym wedi gweld newid yn y deddfau am greu aflonyddwch gan brotestwyr, trwy gynyddu cyfnodau mewn carchar a dirwyon llymach. Mae trefn gosbi Prydain yn achos carcharorion unigol yn uwch nag unrhyw wlad arall yng ngorllewin Ewrop. A nawr rydym yn gweld carchardai yn methu ymdopi â'r niferoedd ac yn orlawn.' Fe wnaeth Dafydd Llywelyn ei sylwadau ddyddiau ar ôl i'r Arglwydd Ganghellor newydd Shabana Mahmood gyhoeddi cynllun i ryddhau carcharorion nad ydynt yn beryglus yn gynt er




*parhad ar dudalen 2*

# Edwards y Pontwr*

Un o nodweddion amlycaf y dref sy'n gartref i'r Eisteddfod Genedlaethol eleni yw'r bont dros yr afon Taf. Ond wyddoch chi fod cysylltiad rhwng y bont ac annibynwyr ac mai'r cysylltiad hwnnw yw'r pensaer a'i cynlluniodd? Roedd y Parchg William Edwards (1719–89), yn bensaer ac yn weinidog ar eglwys hanesyddol y Groes-wen, Caerffili. Urddwyd ef yn weinidog yno ym 1745 ac yno bu'n gwasanaethu hyd ei farwolaeth.

Adeiladodd nifer o bontydd yn ystod ei yrfa – ym Mhontardawe, Betws a Dolauhirion ymhlith eraill – ond yr enwocaf o'r cwbl yw'r un ym Mhontypridd a gwblhawyd ym 1756. (Yr enw gwreiddiol oedd Pont-y-tŷ-pridd.) Hon oedd y bedwaredd bont iddo adeiladu ar y lleoliad hwn, syrthiodd y 3 cyntaf oherwydd problemau daearegol a'r rhychwant llydan rhwng y ddwy lan. Roedd ganddo gytundeb i adeiladu pont yno am £500 fyddai'n aros ar ei thraed am o leiaf saith mlynedd. Costiodd y pedair pont gyfanswm o £1,153 a olygai golled fawr i'r adeiladydd.

Dadorchuddiwyd cofeb iddo yng nghapel y Groes-wen ym 1906 gyda'r geiriau: 'Adeiladydd mewn dau fyd' arni.



*Gelwir ef yn Edwards y Pontwr gan John Roberts, Llanbrynmair, yn y byr gofiant a ysgrifennodd i Lewis Rees ar dudalen 30.

# SUL SBESIAL – *parhad*

mwyn gwneud lle i droseddwyr mwy difrifol. ‘Wrth gwrs, rhaid rhoi troseddwyr difrifol o dan glo i’w cadw nhw rhag cymdeithas, ond nid oes raid carcharu’r canran uchel sy’n cyflawni troseddau lefel is,’ meddai Dafydd. ‘Yn eu plith mae pobl ag afiechyd meddwl, neu sy’n gaeth i alcohol neu gyffuriau.’

### Angen gwella cyflwr pobl

Mewn ateb i gwestiwn ar ddiwedd ei anerchiad dywedodd Dafydd, ‘Yn y Ffindir mae yna drefn llawer mwy adferol, system i adnewyddu’r unigolyn mewn cymdeithas. Ym Mhrydain mae’r pwyslais ar gosbi pobl yn hytrach na gwella’u cyflwr. Does dim adnoddau’n cael eu rhoi i mewn i’r carchardai er mwyn sicrhau nad yw pobl yn aildroseddu. Dyna pam y mae hi mor bwysig fod y system gyfiawnder yn cael ei ddatganoli i Gymru. Fe allwn ni fod yn wahanol. Ond mae gwleidyddion wedi troi cefn ar y syniad. Rydym yn colli cyfle gan fod yna hanes yng Nghymru – cyfraith Hywel Dda, system adferol o gyfiawnder, y fath o system sydd angen yn ein Cymru fodern.’

### Protest Iesu

Cyfeiriodd Dafydd at brotest Iesu Grist yn y Deml yn taflu byrddau’r cyfnewidwyr drosodd, ac yn eu gyrru hwy allan gyda chwip. Petai hynny’n digwydd heddiw, byddai Iesu mewn cell yn syth, meddai. (Ond wrth gwrs, o fewn dyddiau roedd y gosb yn llawer llymach na hynny.) Gorffennodd Dafydd Llywelyn ei anerchiad trwy ddarllen adnodau o Mathew 23: 23-24:

> Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr, oherwydd yr ydych yn talu degwm o fintys ac anis a chwmin, ond gadawsoch heibio bethau trymach y Gyfraith, cyfiawnder a thrugaredd a ffyddlondeb, yr union bethau y dylasech ofalu amdanynt, heb adael heibio’r lleill. Arweinwyr dall! Yr ydych yn hidlo’r gwybedyn ac yn llyncu’r camel.

‘Mae gyda ni nifer o arweinwyr dall, hunanbwysig, torfol eu gwedd heddiw ac mae yna le i ni ymgyrchu yn eu herbyn,’ meddai, ‘trwy hyrwyddo achos Iesu Grist ac ymgyrchu dros gyfiawnder.’

## Ffolineb y ffermwr cyfoethog

Plant ysgol Sul Bryn Iwan o dan arweiniad ei gweinidog y Parchg Gareth Ioan oedd yn gyfrifol am yr addoliad ar y dechrau. Cafwyd cyflwyniad byr a chaneuon yn seiliedig ar ddameg Iesu am y ffermwr ffôl oedd yn ymfalchïo yn ei gyfoeth mawr, ond a fu farw’n sydyn heb gyfle i’w fwynhau. Arweiniwyd gweithdy i’r plant yn y Stiwdio gan Ann Evans. Y Parchg Guto Prys ap Gwynfor, Cadeirydd y Cyfundeb, fu’n arwain yr achlysur, gyda band y Priordy yn cyfeilio’r emynau mewn ffordd fywiog. Cafodd pawb gyfle i fwynhau paned a chacen yn y caffi ar ddiwedd Sul Sbesial arall llwyddiannus iawn.




Mwy o luniau o’r Sul Sbesial: cyfundeb.com

# Eglwys-bach ym Mhontypridd



Os ewch chi heibio’r bont fyd-enwog ym Mhontypridd ar y ffordd i Ynysybwl fe welwch ar y dde feddygfa – a fu unwaith yn gapel Wesleaidd – gyda’r enw Eglwys-bach ar ei dalcen mewn llythrennau bras. Pentref yn Nyffryn Conwy yw Eglwysbach, felly sut ar wyneb y ddaear fod yr enw ar y capel? Wel, capel coffa ydyw a adeiladwyd er cof am un o weinidogion enwocaf y Wesleaid yma yng Nghymru, sef John Evans. Dyma grynodeb o’i hanes.

### Cefndir

Roedd John Evans (1840–97) yn un o arwyr gwerin Cymru ac nid peth anghyffredin oedd gweld llun ohono’n crogi yng nghartref i Wesleaid twymgalon. Ganwyd ef yn Tŷ Du, Eglwys-bach, Dyffryn Conwy, ond yna symudodd y teulu o’r fan honno i’r Goleugell. Gweithiodd am beth amser ar y fferm gyda’i dad cyn rhoi ei fryd ar y weinidogaeth. Cychwynnodd ar y gwaith o bregethu yn gymharol ifanc – tua dwy ar bymtheg oed – ac yn ei farn ei hun, go druenus oedd yr ymgais honno. Roedd mor siomedig fel y daeth i’r casgliad nad oedd Duw yn ei alw i bregethu, ond mynnai’r adnod ‘Gwae fi os na phregethaf yr Efengyl’ blagio’i feddwl. Rhai wythnosau’n ddiweddarach, wedi gweddïo dwys, pregethodd eto ac roedd y bregeth honno mor rymus fel bod dau wedi’u cyflwyno’u hunain i’r Arglwydd ar ddiwedd yr oedfa. Yn ystod ei

*parhad ar y dudalen nesaf*

# Eglwys-bach ym Mhontypridd – *parhad*

ieuenctid yr oedd yn adnabyddus fel ‘bachgen bregethwr’ a byddai torfeydd yn ymgynnull i wrando arno’n pregethu, gyda mwy yn fynych y tu allan i’r capel nag oedd y tu mewn.

### Blodeuo

Rhoddwyd y glasenw ‘Spurgeon bach’ i John Evans oherwydd ei debygrwydd i’r pregethwr byd-enwog, C. H. Spurgeon, Llundain. Y rhyfeddod yw mai ychydig iawn o addysg elfennol a gafodd, a hynny yn yr Ysgol Genedlaethol leol, ond gweithiodd yn galed trwy gydol ei oes i’w



ddiwyllio’i hun. Ysgrifennodd un tro, ‘Gan nad beth fyddo athrylith naturiol dyn, i feddwl neu i siarad, rhaid iddo lafurio yn ei efrydfa yn ddiarbed a pharhaus, onide clindarddach drain dan grochan fydd ei waith i gyd.’ Yn ystod y ddau dro y bu yn Llundain yn gweinidogaethu gyda’r Cymry a’r Saeson, mynnodd gael digon o amser i ddilyn cyrsiau yng Ngholeg y Brenin gan ennill tystysgrifau mewn Athroniaeth, Llenyddiaeth Saesneg, Hanes a Daearyddiaeth.

### Awdur

Cyhoeddodd nifer o gyfrolau yn ystod ei oes, gan gynnwys *Pulpud City Road*, *Pregethau a Darlithiau*, a’i gyfrol ar ei arwr mawr, John Wesley. Gan mai gweinidog ‘Wesla’ ydoedd, a’r enwad wedi pennu fod ei gweinidogion i newid eglwys bob tair blynedd, fe grwydrodd cryn lawer. Bu’n weinidog yn Amlwch, yr Wyddgrug, Lerpwl dair gwaith, Bethesda, Llundain ddwy waith, Bangor, Croesoswallt a Phontypridd.

### Efengylydd

Yr oedd yn bregethwr o fri a thyrrai’r werin i wrando arno yn agor y gair mewn cymanfaoedd pregethu. Yr oedd hefyd yn ddiwygiwr, ac mewn rhai mannau lle y bu’n gweinidogaethu cychwynnodd diwygiadau ysbrydol dwys, fel ym Mangor ym 1887. Ym 1893 symudodd i fyw i Bontypridd er mwyn cychwyn Cenhadaeth Deheudir Cymru y Wesleaid. Yn ystod ei gyfnod yno bu damwain difrifol yn un o’r glofeydd a bu John Evans yn helpu i gario’r cyrff o’r pwll. Bu farw’n ddisymwth yn 57 oed. Ar 23 Hydref 1897 aeth i gyfarfod pregethu yn Shaw Street, Lerpwl, gan letya’r noson honno gyda theulu o’r eglwys, a bu farw yn ystod y nos. Adeiladwyd capel er cof amdano ym Mhontypridd nid nepell o’r bont enwog â’r enw Eglwys-bach mewn llythrennau bras ar ei dalcen. Bu’n briod ddwywaith, yn gyntaf â Charlotte Pritchard o Lerpwl, ac yna â Clara Richardson o Ealing.

Mae’r cofiant a ysgrifennwyd iddo gan John Price Roberts a Thomas Hughes yn eithriadol o ddarllenadwy ac ymhlith cofiannau difyrraf y cyfnod. Y mae nid yn unig yn gofnod o fywyd a gwaith y gwrthrych, ond hefyd yn ddarlun o arferion a hynodion yr oes.

## GOHEBIAETH

Annwyl Olygydd *Y Tyst*,

Mynegwyd pryder gan nifer o aelodau capeli Annibynnol fod dyfodol *Y Tyst* yn y fantol. Rwyf wedi derbyn *Y Tyst* ers blynyddoedd, o ddyddie y diweddar Barchedig Curig Davies pan roeddwn yn aelod yn Ebeneser Abertawe.

Mae’r *Tyst* yn cadw aelodau yn wybodus o hanes yr enwad ac yn dysgu o weithgaredd nifer o eglwysi dros Gymru – a hynny’n wythnosol. Hefyd y mae cyfraniadau gan unigolion yn werthfawr i symbylu datblygu gweithgarwch mewn nifer o eglwysi. Rhaid cofio hefyd am ei werth yn cyflwyno neges y Gair.

Mae trwch yr eglwysi fel aelodaeth bellach wedi heneiddio ac felly, nid oed gan nifer helaeth ohonynt y we. Byddai’n bechod i roddi *Y Tyst* ar y we yn unig. Cofiwch fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi dweud yn glir fod hawl gan y dosbarth yma i gael gwybodaeth yn gynhwysol drwy bapur. Dylai’r Annibynwyr o bawb hybu eglwysi oed-gyfeillgar, a hefyd *Y Tyst*.

Gellir trafod codi pris *Y Tyst* i £1 y copi a fyddai yn rhesymol i gynnal costau.

Credaf yn sicr bellach fod sail i eglwysi gydweithio – fel y gwelwn bellach yn Sir Benfro a Cheredigion – ac felly mae’r syniad o ddeunydd *Y Tyst* yn cael ei gynnwys yn *Cennad* yn ddeniadol i rai, ond eto nid drwy’r we yn unig.

Os gall y byd materol yma gadw i roddi deunydd ar bapur – mae cynnydd mewn darllen papurau dyddiol ac wythnosol – teimlad nifer ohonom yw y dylid parhau â’r *Tyst* fel y mae ond meddwl eto am y pris. Rydym yn credu ei fod yn werth y gost i’r Undeb gan gofio fod *Y Tyst* yn dal o hyd yn rhan o’n tystiolaeth o’r Deyrnas ac efengyl ein Gwaredwr – sydd yn sicr o’i werth o hyd yn ein cymdeithas.

Pob dymuniad da,

**Lyndon Lloyd**
Beulah, Castellnewydd Emlyn

## Agor y Llyfr

Cynllun y mae nifer o eglwysi Annibynnol yn rhan ohono erbyn hyn yw Agor y Llyfr sy’n cael ei gydlynu gan Gymdeithas y Beibl. Y mae’n ffordd ardderchog i eglwysi wasanaethu ysgolion lleol mewn ffordd greadigol gan greu perthynas gyda hwy. Ar hyn o bryd, yn gyffredinol, y mae gwaith plant a theuluoedd yn dalcen caled iawn. Y mae dau reswm o leiaf am hyn, sef:

1. Mae’r arfer i rieni a fagwyd mewn eglwysi i ddod a’u plant i’r addoliad i raddau helaeth wedi darfod.
2. Y mae patrymau cymdeithasol y Sul wedi newid yn llwyr. Felly, rhaid i eglwysi feddwl sut i ymateb i hyn gan addasu eu gweithgareddau i gyd-destun newydd.

### Dathlu 25

Eleni y mae cynllun Agor y Llyfr yn dathlu 25 mlynedd ers ei sefydlu yn Bedford, ac ers hynny bu’r twf yn aruthrol. O’r un tîm cychwynnol y mae yn awr bellach 3,389 o dimau ledled y Deyrnas Gyfunol , 9,595 o storïwyr sy’n rhannu straeon gyda phlant mewn oddeutu 3,594 o ysgolion. Mae’r cynllun wedi ei gyfieithu i nifer o ieithoedd ac yn weithredol bellach yn Uganda, Kenya, Ghana, Ewrop, America Ladin a’r Dwyrain Canol.

*parhad ar dudalen 10*

Yr Adran Gydenwadol

AWST 1 2024 RHIF 179-180

# Dathlu Gweinidogaeth a Chenhadaeth yng Nghymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru




Grŵp Ny Ako o Madagascar yn moli'n llawen drwy ddawns a chân



Côr Synod Mizoram yn cloi'r mawl wrth inni ganu 'Diolch i Ti, yr Hollalluog Dduw' mewn Mizo, Malagasi, Cymraeg a Saesneg

Roedd croeso cynnes i'w deimlo nos Lun ein Cymanfa Gyffredinol, 8 Gorffennaf, wrth i 120 ohonom ddod at ein gilydd i gydfwyta ac i gyd-ddathlu ac addoli yng nghanolfan Medrus Prifysgol Aberystwyth.

Rhoddwyd croeso o gwmpas y byrddau a chyfle i'r cynrychiolwyr o enwadau a mudiadau Cristnogol yng Nghymru a gwledydd Prydain a'r byd ein cyfarch.

Eleni fe gawsom ein bendithio gyda chwmni dau grŵp rhyngwladol oedd yn teithio yn ein plith, sef Ny Ako, grŵp o Gristnogion o Madagascar, a Chôr Synod Mizoram o'r India. Fe fuon nhw'n arwain ac yn ymuno yn ein moliant wrth inni glywed am waith oedd yn digwydd gennym ledled Cymru, a chawsom ein hatgoffa o effaith yr Efengyl yn eu gwledydd eu hunain.

Ond cyn troi ein golwg at Gymru a'n gwaith ein hunain fe glywsom gan Sharon Singsit-Evans, yn wreiddiol o Manipur, sydd wedi bod yn rhan o'n cyfarfod gweddi wythnosol dros y dalaith honno yn India a'r ardal honno o'r byd yn ei thrafferthion. Drannoeth, yn ystod cyfarfodydd y Gymanfa, rhoddwyd cefnogaeth i lansio apêl tuag at leddfu'r anghenion yn y dalaith yn sgil y dinistr a'r lladd a fu ar lawer o Gristnogion, eu heglwysi a'u heiddo.

Cawsom ein calonogi wrth gyfarfod gweithwyr a gweinidogion o Fôn i Bontypridd, o Flaenau Ffestiniog i Bort Talbot oedd yn gwneud gwahaniaeth yn y mannau lle roedden nhw.

Ym mlwyddyn y gemau Olympaidd fe gyflwynwyd fideo effeithiol iawn gan lawer o'r rhai yn ein plith sy'n gweithio ymhlith plant, pobl ifanc a theuluoedd, yn pasio fflam ffydd o'r naill i'r llall ar hyd Cymru a Llundain gan ymuno yn y ras sydd wedi ei gosod o'n blaenau. Cafwyd gweddi arbennig hefyd dros y genhedlaeth iau fel rhan o'r cyflwyniad hwn.

Yn gyflwyniad i'n Cymanfa, fe gafwyd dathliad llawn iawn a'n tynnodd at ein gilydd o gwmpas ein gweinidogaeth a'n cenhadaeth mewn modd gobeithiol a llawen wrth inni ddiolch am yr Efengyl fendigedig a roddwyd inni i'w rhannu â'n brodyr a'n chwiorydd ledled y byd.



Sharon Singsit-Evans, yn wreiddiol o Manipur, India, yn sôn am y tensiynau a'r dinistr sydd wedi bod yno dros y flwyddyn ddiwethaf

# Gweithgareddau Cytûn yn Eglwys St Catherine a digwyddiadau eraill ar faes Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Rhondda Cynon Taf, 3–10 Awst

**Bydd stondin Cytûn (unedau 316-17) ar agor ar faes yr Eisteddfod ym Mharc Angharad rhwng 9 a 6 o'r gloch bob dydd. Bydd y stondin lyfrau ac adnoddau yno, a digon o gardiau Nadolig ar gael am hanner pris.**

**Yn eglwys St Catherine y bydd y prif arddangosfeydd, ond bydd ambell pop-yp ar y maes hefyd. Bydd bwrdd a chadeiriau ar gyfer gwaith plant, a bwrdd a chadeiriau ar gyfer sgwrs – ond noder mai cyfyng iawn fydd y lle ar gyfer hyn.**

**Stondinau eraill o ddiddordeb ar y maes: Addoldai Cymru (C34); Mudiad Efengylaidd Cymru (215-16) a'r Babell Heddwch (101–2)**





**Eglwys St Catherine – bob dydd**:
Paned a theisen gri rhwng 11.30yb a 5.30yp
Gweithgaredd i blant a diod oer a bisgedi
Oedfa am 1.00yp (Llun i Sadwrn)
Cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg rhwng 1.00yp a 2.00yp
Cornel ddistaw a lle i fyfyrio
Cyfle i helpu Cymorth Cristnogol i ymgyrchu dros dlodi a chyfiawnder
Cais i arwyddo cerdyn post newid hinsawdd i'ch Aelod Seneddol
Arddangosfa Byddin yr Iachawdwriaeth – 'Beibl mewn gwlân'
Pererindod cregyn o faes yr Eisteddfod i'r eglwys
Arddangosfa o 7 gosodiad blodau
Cyfle i edmygu 6 ffenest liw yn olrhain hanes Cristnogaeth Cymru
Detholiad o lyfrau ac adnoddau Cristnogol ar werth
Gwasanaeth gwefru ffonau symudol

Arddangosfeydd gan yr enwadau Cristnogol yng Nghymru, a hefyd gan y canlynol:
Cytûn; Cymdeithas y Beibl; Cymorth Cristnogol; Cyngor yr Ysgolion Sul; Home for Good; Cynllun Eco Eglwys A Rocha; Cofleidio'r Dwyrain Canol; Byddin yr Iachawdwriaeth; Cymdeithas y Cymod; Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd; Athrofa Padarn Sant; Newyddion Da i Bawb; Cyngor Rhyng-ffydd Cymru; Undeb y Mamau – 'Tu ôl i ddrysau caeedig'; National Churches Trust; Gwasanaeth mabwysiadu Dewi Sant

Arddangosfeydd blodau wedi'u trefnu gan y canlynol: Cymdeithas y Beibl; St David's Uniting Church; Eglwys St Catherine – Gardd y Pasg; Byddin yr Iachawdwriaeth; Eglwys Temple Baptist; Undeb y Mamau; Cyngor Rhyng-ffydd Cymru

**Dydd Sadwrn, 3 Awst**
Eglwys St Catherine – 1.00yp – myfyrdod a sgwrs gan Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Cytûn
Pabell Encore –2.15yp: 'Cân i godi calon', sesiwn gyda Siân Meinir, Elain Rhys a Ffrindiau Dementia Rhondda Cynon Taf
Y Babell Lên – 3.00yp: 'Mae sŵn yr ymladd yn ein clyw', wedi'i drefnu gan Gymdeithas y Cymod
YMa – 3.00yp: *Gaeaf yn troi'n haf,* drama gan Denzil John
Bandstand Parc Angharad – 7.00yh: Gwylnos heddwch gan Gymdeithas y Cymod gyda cherddoriaeth gan Gwyneth Glyn




**Dydd Sul, 4 Awst**
Y Pafiliwn – 9.00yb: Oedfa'r Eisteddfod, dan ofal Geraint Rees ac eraill. Noder bod angen tocyn maes i fynychu'r oedfa
Eglwys St Catherine – 11.00yb: Gwasanaeth y Sul
Panell Encore – 1.00yp: Mawl y Cymoedd, cyfle i glywed emynau lleol yng nghwmni Pedwarawd C.O.R.
Y Pafiliwn – 8.00yh: Cymanfa Ganu – arweinydd, Wil Morus Jones; organydd, Jeffrey Howard; rhannau arweiniol – Rosa Hunt

**Dydd Llun, 5 Awst**
Eglwys St Catherine – 1.00yp: Addoliad dan ofal Angor Grangetown (Cynan Llwyd)
Eglwys St Catherine – 1.30yp: Lansio *Byw'r Weddi*, addasiad Gwilym Wyn Roberts o gyfrol Trystan Owain Hughes
Eglwys St Catherine – 2.00yp: Datganiad gan Sioned Webb a Salih Hassan
Y Pafiliwn – 3.25yp: Lansio Gwobr Goffa R. Alun Evans
Pabell y Cymdeithasau 1 – 4.00yp: Pwy yw'r Crynwyr? O ddoe hyd heddiw
Parc Arts, Stryd y Dywysoges, CF37 1RY – 5–9 Awst, 10yb–4yp: 'Y Cymoedd yn Breuddwydio', arddangosfa gan Jon Poutney; 'Taith heb lyfrau', wedi'i churadu gan Lois Adams; Y Cwtsh – paned a gweithgareddau i blant

**Dydd Mawrth, 6 Awst**
Eglwys St Catherine – 1.00yp: Addoliad dan ofal y Bedyddwyr (Rosa Hunt)
Eglwys St Catherine – 1.30yp: Lansio'r cylchgrawn *Gobaith*, dan ofal Newyddion Da i Bawb
Eglwys St Catherine – 1.45yp: Cyflwyniad i'r cylchgrawn cydenwadol *Cristion* gan Siân Elin, un o'r golygyddion newydd
Y Babell Lên – 12.30yp: Ar Drywydd Brynley Roberts, gyda Gwerfyl Pierce Jones, Robert Rhys a Rhidian Griffiths
Maes D – 2.30yp: Dwylo dros y môr, sgwrs gan Rosa Hunt ac eraill
Pabell y Cymdeithasau 1 – 11.00yb: Crefydd ac Ysbrydolrwydd yng ngwaith Emrys ap Iwan, darlith gan yr Athro D. Densil Morgan
Pabell y Cymdeithasau 1 – 2.00yp: Ffynhonnau Morgannwg, sgwrs gan Howard Huws
Pabell y Cymdeithasau 2 – 12.30yp, Canrif o Hawliau Plant – Achub y Plant, sgwrs gan Eurgain Haf

**Dydd Mercher, 7 Awst**
Eglwys St Catherine – 10.30 yb: Gwasanaeth y Cymun Bendigaid dan ofal Mary Stallard, esgob Llandaf, ac eraill
Eglwys St Catherine – 1.00yp: Addoliad dan ofal Sound of Wales ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Eglwys St Catherine, 1.30yp: Cyflwyno'r gyfrol *Gair Duw ar Lafar Gwlad,* gan Dewi Arwel Hughes
Eglwys St Catherine – 1.45yp: Lansio *Llyfr Lliwio Beibl Bach Stori Duw*, gyda stori i blant

(parhad ar y dudalen nesaf)

***Gweithgareddau Cytûn yn Eglwys St Catherine a digwyddiadau eraill ar faes Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Rhondda Cynon Taf, 3–10 Awst***
*(parhad o dudalen 2)*

Eglwys St Catherine – 2.00yp: Sesiwn y Cwestiwn Mawr, dan nawdd Athrofa Padarn Sant a Choleg y Bedyddwyr Caerdydd: beth fyddech chi'n holi Duw? Byddwn yn gofyn …
Pabell y Cymdeithasau 1 – 12.00yp: 'A oes heddwch?' Sesiwn dan ofal Cymdeithas y Cymod
Pabell y Cymdeithasau 1 – 5.00yp: Cofio Richard Price, Apostol Rhyddid, gan yr Athro Huw Williams
Pabell y Cymdeithasau 2 – 10.30yb, *Caniadaeth y Cysegr* yn 75 oed, cyflwyniad gan Gymdeithas Emynau Cymru
Pabell y Cymdeithasau 2 – 1.30yp: Agweddau ar y Bardd a'r Offeiriad R. S. Thomas, sgwrs gan Jon Gower, Clare Potter ac M Wynn Thomas
Eglwys Temple Baptist, Pontypridd – 7.00yh: Noson i gofio cyfraniad arbennig Dewi Arwel Hughes ac i lansio'i gyfrol *Gair Duw ar Lafar Gwlad*, wedi'i golygu gan Christine James ac E. Wyn James

**Dydd Iau, 8 Awst**
Eglwys St Catherine – 1.00yp: Addoliad dan ofal Meilyr Rees, Eglwys Coedpenmaen
Eglwys St Catherine – 1.30yp: Hawlio Heddwch – sgwrs
Eglwys St Catherine – 1.45yp: Llwybr Pererindod Pen-rhys, sgwrs gan Dyfrig Lloyd
Y Pafiliwn – 11.50yb: Cystadleuaeth Llefaru o'r Ysgrythur (agored)
Y Pafiliwn – 12.05yp: Cystadleuaeth Canu Emyn
Y Babell Lên – 9.00yb: Cystadleuaeth Llefaru o'r Ysgrythur (agored)
Y Babell Lên – 11.30yb: Darlith Goffa Hywel Teifi – 'O'r Rhondda i Ganaan', traddodir gan Daniel G. Williams
Pabell Encore – 9yb: Cystadleuaeth Canu Emyn
Ardal Gwyddoniaeth a Thechnoleg – 12.30yp: Sgwrs ar Archwilio'r Argyfwng Hinsawdd
Eglwys Dyfrig Sant, Trefforest – 6.00yh: Offeren yr Eisteddfod, dan ofal yr Esgob Edwin Regan
Parc Arts, Stryd y Dywysoges, CF37 1RY – 6.45yh: Noson Meic Agored

**Dydd Gwener, 9 Awst**
Eglwys St Catherine – 1.00yp: Addoliad dan ofal Band Byddin yr Iachawdwriaeth
Eglwys St Catherine – 1.30yp: Cynllun Eco Eglwys A Rocha, sesiwn gan Delyth Higgins
Pabell Cymdeithasau 1 – 3.00yp: Lansio *Gofal ein Gwinllan, Cyfrol 2* gan yr Eglwys yng Nghymru
Parc Arts, Stryd y Dywysoges, CF37 1RY – 6.45yh: Noson Meic Agored

**Dydd Sadwrn, 10 Awst**
Eglwys St Catherine – 1.00yp: Oedfa o dan arweiniad y Parch Dyfrig Lloyd, Eglwys Dewi Sant, Caerdydd
Y Babell Lên – 4.30yp: Lleuwen Steffan gyda Band Tafod Arian yn edrych ar hen emynau a phregethau rhyfeddol
Pabell Encore – 12.00yp: Cystadleuaeth Emyn-dôn i eiriau Gwynfor Dafydd

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro

## Galluogwr Cenhadol Gwledig (Cyfaill Cefn Gwlad)

Mae'r Henaduriaeth yn chwilio am unigolyn i ysgogi cenhadaeth a hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yng nghefn gwlad de Aberteifi a gogledd Penfro.

Oriau: 35 awr yr wythnos
Cytundeb: 3 blynedd yn y lle cyntaf, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf
Cyflog: Band 31–35 (£31,214–£33,051) ar raddfa cyflog EBC neu'n uwch, yn dibynnu ar lefel cymwysterau a phrofiad, a bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC
Lleoliad: Byddwch yn gweithio o gartref; fodd bynnag, fe all y bydd gofyn i chi weithio o leoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol a'r iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru
ffôn: 02920 627465

**Dyddiad cau : 30 Medi 2024, 4pm**

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Henaduriaeth Conwy Dyfrdwy

## Gweithiwr Ymestyn (ar gyfer Gofalaeth Thomas Charles)

Mae Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy yn dymuno penodi Gweithiwr Ymestyn (ar gyfer Gofalaeth Thomas Charles – y Bala a Phenllyn i ysgogi cenhadaeth a hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yng nghefn gwlad.

Oriau: 35 awr yr wythnos
Cytundeb: 3 blynedd gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf
Cyflog: £31,214–£33,051, pwynt 31–35 pro rata, graddfa gyflog EBC neu'n uwch, yn dibynnu ar gymwysterau a phrofiad
Bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC
Lleoliad: Byddwch yn gweithio o Eglwys Thomas Charles, y Bala. Fodd bynnag, efallai y bydd gofyn i chi weithio o leoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol a Chymraeg yn berthnasol i'r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru
ffôn – 02920 627465

**Dyddiad cau: 30ain o Fedi 2024, 4pm**

# Cymanfa Gyffredinol EBC ar ei newydd wedd



Eleni, roedd ein Cymanfa Gyffredinol, a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth, ar ei newydd wedd. Cymanfa bedair awr ar hugain (wel, 27 awr!) oedd hi, a'r pwyslais ar ddathlu ein gweinidogaeth a'n cenhadaeth yn hytrach nag adrodd am waith y pwyllgorau.

Mewn brawddeg, yr hyn a ddathlwyd oedd 'cenhadaeth Duw, trwy rym ei Ysbryd Glân, ar waith yn ein plith'. Dathlwyd ein cymdeithas a'n dyhead i weithio mwy efo eglwysi eraill yng Nghymru ac yn fyd-eang yng nghwmni brodyr a chwiorydd o India a Madagascar. Noson arbrofol oedd hon, ond tystiodd llawer i'r fendith a'r llawenydd a brofwyd wrth ddechrau ein Cymanfa fel hyn.

Yn ystod yr 27 awr cawsom ddwy ddarlith safonol, a'r ddwy eto fyth, yn rhagluniaethol, yn troi ein golygon at genhadaeth. Cawsom Ddarlith Hanes ddydd Llun gan y Parch J. E. Wynne Davies ar 'Y Genhadaeth Anghofiedig', gan beri ein bod yn cofio eto am y gwaith cenhadol a wnaethom ni a llawer o enwadau eraill o Gymru yn Llydaw o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen tan 1971.

'Caplaniaeth – Hanfodol i Fywyd yr Eglwys' oedd thema'r Parch. Marcus Wyn Robinson wrth iddo yntau draddodi'r Ddarlith Davies ar y bore dydd Mawrth. Roedd y ddwy ddarlith yn ein hatgoffa o'r dewrder a'r penderfyniad sydd eu hangen wrth fentro mewn ffydd, a'r dyfalbarhad er gwaetha'r rhwystrau i'n cenhadaeth.

Tair awr a hanner yn unig a neilltuwyd eleni i fusnes, a hynny yn adroddiad Bwrdd y Gymanfa a roddwyd cyn ac ar ôl cinio dydd Mawrth. Ond, rywsut neu'i gilydd, yn ystod y cyfnod hwn llwyddwyd i adrodd ac i ddod i 24 o benderfyniadau, y byddwn maes o law yn gweithredu arnynt. Bydd y penderfyniadau hyn, gobeithio, yn ein helpu ni i fod yn fwy effeithiol yn ein cenhadaeth wrth inni feddwl yn fwy creadigol am ein defnydd o adeiladau a datblygu defnydd ein canolfan ieuenctid a phlant etc. Lansiwyd apêl i leddfu'r anghenion yn nhalaith Manipur, India, a chlywsom adrodd gan ein partneriaid Cymorth Cristnogol, ein hadran Eglwys a Chymdeithas a'r Chwiorydd. Roedd gennym 90 eiliad i'w sbario ar ddiwedd yr adroddiad!

Yn dilyn ein strategaeth gweddi eleni a'r cyfleoedd yr ydym wedi eu cael i gymryd gweddi o ddifri o fewn yr Eglwys, arweiniwyd a bugeiliwyd ni yn y Gymanfa yn ofalus gan ein harweinydd gweddi, sef y Parch. Owen Griffiths. Arweiniodd un a ordeiniwyd yn ein plith yn ystod y flwyddyn, sef y Parch. Rebecca Lalbiaksangi ni at fwrdd y cymun gan bregethu ar thema ein Llywydd ar gyfer eleni, 'A fynni di dy wneuthur yn iach?' (Ioan 5:6)

Dwn i ddim ai fi sydd â'r hawl i fesur llwyddiant y Gymanfa, ond heb os fe gafwyd Cymanfa lawn, lawen a lliwgar eleni. Mae cael gweld a bod yng nghwmni ein gilydd mor werthfawr. Roedd yr Arglwydd, drwy nerth ei Ysbryd Glân, ar waith yn ein plith. Diolchwn i'r tîm fu'n trefnu ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd.

*Nan Powell-Davies*
*Ysgrifennydd Cyffredinol*

Gellir gwylio'r darlithoedd, yr anerchiadau a mwy ar safle YouTube yr eglwys a dilyn y dolenni hyn:
Y Ddarlith Hanes – https://youtu.be/KQyYIzx8ryk?si=7EDfm809lT_nhx1O
Y Ddarlith Davies – https://youtu.be/bWi8auXn-Dw?si=k-7CsQHdAaFI8Ru7
Anerchiad Rebecca wrth fwrdd y cymun – https://youtu.be/Evq6oZULDcU?si=FpR9VqZpy3W1ki_G

S4C

***Cymanfa Ganu Eisteddfod Genedlaethol Cymru***
**Sul, 4 Awst, am 8:00yh**
Y Gymanfa Ganu o Bafiliwn yr Eisteddfod, Rhondda Cynon Taf

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 4 Awst, am 7:30yb a 12:00yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Emlyn Davies, Pentyrch

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 4 Awst, am 1:00yp**
Oedfa'r Eisteddfod Genedlaethol

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 11 Awst, am 7:30yb a 16:30yp**
Rhaglen o ganu cynulleidfaol

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 11 Awst, am 12yp**
Oedfa dan ofal Rhun Murphy, Wrecsam

# Cymanfa Gyffredinol Eglwysi CWM – Durban, De Affrica, 12–18 Mehefin – rhai argraffiadau



Siwan a Habiba ar y traeth yn cael awyr iach amser cinio!

Ychydig wythnosau yn ôl, aeth criw bach ohonom o Gymru i Gynhadledd Gyffredinol CWM yn Durban, De Affrica. Roeddem yn ymuno â chynrychiolwyr o aelodau eglwysi eraill CWM, dan y thema ‘Codi i Fywyd: Gyda’n gilydd mewn Trawsnewid’ (‘Rise to Life: Together in Transformation’).

Roeddwn i yno ychydig ddiwrnodau cyn y gynhadledd ar gyfer ‘Pre-Assembly’ i ferched yn unig. Dechreuodd y sesiynau hynny gyda sgwrs gan Monica J. Melanchthon, ffoadur sydd bellach yn byw yn Awstralia. Buom yn astudio llyfr Jeremeia, gan ganolbwyntio ar Jeremeia 31:15–22 a’r cymeriad Rachel. Roeddem yn trafod sut mae Rachel yn wylo, heb ddymuno cysur, ond yn y pen draw mae Duw yn clywed ei chri ac yn ymateb ag addewid.

Yn ystod y trafodaethau soniodd Masele, merch o Samoa, ei bod yn hyfforddi i fod yn weinidog. Ond ni fydd yn gallu gweinidogaethu yn ei hardal oherwydd nad oes gan fenywod hawl i fod yn weinidogion yno. Bydd raid iddi wasanaethu mewn ardal neu enwad arall ar ôl ei hyfforddiant. Roedd ei hanes yn dangos fod pellter mawr i fynd eto i sicrhau hawliau cyfartal i ferched, hyd yn oed o fewn yr eglwys.

Dyma’r datganiad a roddwyd i’r brif gynhadledd gan y merched:
- Rydym yn cadarnhau bod gan holl bobl Dduw gyfraniad o fewn yr eglwys a’r gymuned.
- Rydym yn eiriol dros gyfle cyfartal i ferched fel arweinwyr mewn perthynas â Duw ac â’i gilydd.
- Cymunedau: annog newid amlochrog, gan ddechrau o fewn cartrefi a chymunedau.
- Grymuso: hyrwyddo’r gallu i ddarllen y Beibl o oedran cynnar i ail-lunio arweinyddiaeth.
- Mentora: meithrin rhaglenni i roi canllawiau ac anogaeth i ferched sy’n datblygu’n arweinwyr.
- Cefnogi: sefydlu rhwydweithiau i hybu ac annog ein gilydd.

**Y Gymanfa ei hun**

Ar ôl noson hyfryd yn y gwasanaeth agoriadol mewn eglwys leol, Grace Church, lle gwnaethon ni orymdeithio gyda baneri ein heglwys at yr eglwys honno i gyfeiliant band pres, roedd ein sgwrs gyntaf gan yr Athro Puleng Lenkabula ar y thema ‘Codi i Fywyd’. Dywedodd fod ein byd yn llawn o systemau sy’n lladd (nid bob amser yn llythrennol) yn hytrach na rhoi bywyd i bobl ac yn blaenoriaethu arian. Cyfeiriodd hi at Salm 23, sy’n salm gyfarwydd iawn i ni, ac yn benodol at y borfa werdd a digonedd o ddŵr yn llifo. Fe wnaeth un peth ddywedodd hi fy nharo’n arbennig: ‘Gobaith yw ffydd ar waith’. Rydym yn gallu sôn am obaith fel dyhead ar i rywbeth ddigwydd. Ond dydi gobaith ddim yn aros yn llonydd ac yn gadael pethau fel y maen nhw.

Cawsom dair trafodaeth yn ystod yr wythnos ar is-themâu ‘Codi i Fywyd: Gyda’n gilydd mewn Trawsnewid’: ‘Trawsnewid Grym’, ‘Adolygu Cenhadaeth’, ac ‘Adeiladu Cymunedau lle gall Bywyd Ffynnu’. Roedd yr Athro Verene A. Shepherd yn siarad am bwysigrwydd addysg i drawsnewid, gan ddweud: “Addysg yw’r arfer mwyaf pwerus i drawsnewid y byd.”

Roedd trafodaeth Upolu Lumā Vaai yn canolbwyntio ar sut mae cymunedau brodorol yn byw ac yn parchu’r pridd, gan bwysleisio ein cysylltiad dwfn â’r ddaear.

Yn y sesiwn ar “Adeiladu Cymunedau lle gall Bywyd Ffynnu”, siaradodd tair merch ifanc: Habiba o Kenya sy’n rhedeg elusen i helpu mamau ifanc, Muna Nassar o Balesteina a siaradodd am ei phrofiad, a Prianka a drafododd gyfundrefn gast India, gan annog yr eglwys i ‘Walk our talk’ – gweithredu yn ogystal â siarad.

Roedd y gynhadledd yn cynnig cyfleoedd i drafod, rhannu syniadau, a dysgu gan amrywiaeth o leisiau. Fe wnaed yr adnodau o’r Beibl a’r trafodaethau ein hannog i herio’r *status quo* a gweithio tuag at newid cadarnhaol yn ein bywydau personol ac yn ein cymunedau.

*Siwan Jones*
*Rhosllannerchrugog*



Grŵp trafod – gyda chynrychiolwyr o Bangladesh, Cymru (Siwan Jones), Māòhi, Hong Kong a De Korea



Y merched yn dangos eu cefnogaeth i Balesteina; o’r chwith: Prianka, Habiba a Muna gyda Corey Hampton (EBC) oedd wedi cydlynu’r sesiwn

# Ymwneud â'n llywodraethau a'n cynrychiolwyr – Bwletin Polisi Cytûn (Haf 2024)

Bu'n gyfnod prysur yn y byd gwleidyddol ar draws y Deyrnas Unedig gyda newid lliw'r llywodraeth yn San Steffan. Bu'n gyfnod stormus yn Senedd Cymru hefyd wrth weld y Prif Weinidog, Vaughan Gething, yn cynnig ei ymddiswyddiad ac Eluned Morgan a Huw Irranca-Davies yn cyflwyno'u hunain fel tîm newydd i arwain y Blaid Lafur sy'n llywodraethu yng Nghymru.

Yn wyneb hyn i gyd, yn y rhifyn cyfredol o Fwletin Polisi Cytûn mae Gethin Rhys yn amlinellu rhaglenni deddfwriaethol y ddwy lywodraeth: mesurau am fysiau a thomenni glo, digartrefedd a bioamrywiaeth yng Nghymru, yn ogystal â'r mesurau hynny yn San Steffan fydd yn cael effaith yng Nghymru. Bydd Cytûn yn cydweithio â Gwasanaeth Cynghori Deddfwriaethol yr Eglwysi (CLAS) ac eglwysi ar draws gwledydd Prydain i fonitro'r deddfau hyn o safbwynt buddiannau a blaenoriaethau'r eglwysi.



**Anogaeth i ddechrau sgwrs â'ch Aelod Seneddol newydd**
Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig, mae nifer o aelodau Cytûn yn annog eglwysi lleol i gysylltu â'u Haelod Seneddol newydd i'w cyflwyno'u hunain a dod i adnabod ei gilydd. A chofier bod hyd yn oed Aelodau Seneddol a ailetholwyd bellach yn gwasanaethu etholaeth â ffiniau newydd ac yn cynrychioli cymunedau fydd yn newydd iddynt. Ymhlith yr adnoddau ddaeth i'n sylw y mae'r canlynol:




Anfon cerdyn at eich Aelod Seneddol – adnodd gan Dîm Materion Cyhoeddus yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig ac Undeb Bedyddwyr Prydain i lunio ac anfon cerdyn a neges syml yn croesawu eich Aelod Seneddol newydd.

Torri Bara gyda'ch Aelod Seneddol – adnodd Cymorth Cristnogol i'ch helpu i groesawu a thrafod tlodi gyda'ch Aelod Seneddol.

**Pam mae gwirfoddoli yn dda i'ch iechyd**
Rydym i gyd yn ddibynnol ar wirfoddolwyr yn ein heglwysi. Mae cyhoeddiadau diweddar yn amlygu'r rôl hanfodol sydd gan wirfoddolwyr a sefydliadau cymunedol, gan gynnwys eglwysi, i'w chwarae yng nghyd-destun eang iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Cyflwr Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ysgolion Cymru**
Mae Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru ym Mangor wedi lansio adroddiad am gyflwr y pwnc (Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y cwricwlwm newydd hyd at flwyddyn 8 ac Addysg Grefyddol dan yr hen gwricwlwm ym mlynyddoedd 9–11) yng Nghymru. Mae canfyddiadau'r adroddiad, sy'n seiliedig ar brofiadau athrawon yn yr ysgolion, yn bryderus, a chawn ddarllen amdano yn y Bwletin. Dyma gyfle felly i eglwysi gysylltu â'u hysgolion lleol i ofyn a allant fod o gymorth gydag ymweliadau ac adnoddau wrth iddynt ddatblygu eu cwricwlwm ar gyfer eu cynefin lleol, a hefyd i gynnig gofal bugeiliol i athrawon sydd dan bwysau. Credwn y bydd athrawon yn mawr werthfawrogi pob arwydd o gefnogaeth ymarferol ac ysbrydol yn eu gwaith.

Gallwch ddarllen yn llawn am y materion hyn a'r holl rai eraill sy'n cael eu cynnwys yn Bwletin Polisi Haf 2024 – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru | Churches Together in Wales (cytun.co.uk)

## Cystadleuaeth Celf Ieuenctid Cymru Masnach Deg

Mae Masnach Deg yn dathlu 30 mlynedd yn y Deyrnas Unedig, ac mae Cymru Masnach Deg yn cynnal cystadleuaeth gelf sy'n cyd-fynd â Phythefnos Masnach Deg (9–22 Medi 2024). Thema'r gystadleuaeth yw: Masnach Deg a Dim Datgoedwigo – sut mae Masnach Deg yn gweithio i gael effaith yn erbyn datgoedwigo? Mae'n nodi fod coedwigoedd trofannol y byd yn cael eu dinistrio ac yn chwarae rhan enfawr yn yr amddiffyniad yn erbyn newid hinsawdd. Mae Masnach Deg yn gweithio gyda chynhyrchwyr a ffermwyr cynhyrchion fel coffi a chacao i helpu i wneud coedwigoedd yn fwy gwydn a chynaliadwy. Mae'r gystadleuaeth ar agor i blant 4–16 oed ar draws Cymru, a'r dyddiad cau yw 23 Medi. Ceir rhagor o fanylion am y gystadleuaeth yn ddwyieithog yma, ac am Bythefnos Masnach Deg ledled y Deyrnas Unedig ar wefan Fairtrade Foundation (Saesneg yn unig). Beth am i ysgolion Sul, clybiau gwyliau a chlybiau plant eglwysi Cymru helpu i ddathlu trwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth?

## Agor y Llyfr – parhad

### Agor y Llyfr yn Gymraeg

Dywed Sarah Morris, Swyddog Hyfforddiant a Datblygu Agor y Llyfr De Cymru, 'Mae stori Agor y Llyfr yn y Gymraeg yn mynd 'nôl i tua 2007. Roedd Cynthia Davies wedi bod mewn eglwys yn ne Lloegr, a chlywed hanes yn fanno am Open the Book, oedd yn defnyddio'r Lion Storyteller Bible. Fe holodd Cynthia, Aled Davies, Cyfarwyddwr Cyhoeddiadau'r Gair a fyddent yn barod i'w gyhoeddi yn Gymraeg, gan iddi ei hoffi fel llyfr ond hefyd fel cynllun cyffrous i fynd mewn i ysgolion. Fe aeth Cynthia ati i'w gyfieithu, a chyhoeddwyd Beibl Newydd y Storïwr yn Gymraeg yn 2008. Erbyn hyn, mae tua 300 o storïwyr yng Nghymru, gydag oddeutu 40 o dimau Cymraeg eu hiaith.'



### Adrodd stori

Yr hyn sy'n digwydd mewn sesiwn Agor y Llyfr yw bod criw o oedolion – gall hynny amrywio o 3 i 10 – yn mynd i mewn i ysgol leol ac adrodd stori o'r Beibl sy'n para rhyw 5 munud. Y mae canllawiau manwl wedi'u gosod mewn llawlyfr sut i fynd ati ac y mae'r holl adnoddau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Darllen sgript yw'r rhan fwyaf o'r sesiwn gydag ychydig o actio. Nid oes rhaid dysgu unrhyw beth ar y cof dim ond gwisgo mewn dillad addas a meimio gan fwyaf.

### Dewch yn rhan o'r stori

Erbyn hyn y mae mwy a mwy o ysgolion yn barod i agor eu drysau i'r gweithgarwch hwn gan ei fod yn eu galluogi i ymgysylltu â'r gymuned leol a hefyd y mae yn gyfrwng hwyliog i addysgu'r plant am Gristnogaeth.

Os nad yw eich eglwys chi yn rhan o hwn fe fyddai'n syniad i chi ei fabwysiadu. Gellir hefyd gydweithio gydag eglwysi eraill yn eich cymuned er mwyn creu tîm. Os ydych am ragor o gyngor cysylltwch trwy e-bost gyda: sarah.morris@biblesociety.org.uk

## Gweddi 4 – Ein Tad yn y nefoedd

Yn y gyfres hon rydym yn edrych ar weddi er mwyn annog ein gilydd i weddïo'n ddyddiol ac i sylweddoli nad rhywbeth sy'n digwydd yn unig mewn oedfa yw gweddi ond ei fod yn rhan allweddol o fywyd pob Cristion. Mewn gweddi y mae 5 elfen yn cael eu cynnwys sef, Addoliad, Cyffes, Gofyn (*Petition*), Eiriolaeth (*Intercession*) a Diolchgarwch. Nid yw'r 5 elfen ym mhob gweddi ond wrth i ni weddïo'n aml byddwn yn cyffwrdd â phob un ohonynt.

Y tro diwethaf edrychwyd ar ddau air cyntaf gweddi'r Arglwydd sef Ein Tad. Yma fe edrychwn ar weddill y cymal agoriadol. Mae gweddi'r Arglwydd wedi ei chofnodi mewn dau le sef, Luc 11 a Mathew 6 yn y bregeth ar y mynydd. Yma, defnyddiwn fersiwn Efengyl Mathew:

Ein Tad sydd yn y nefoedd,
dyn ni eisiau i dy enw di gael ei anrhydeddu.

Ein Tad sydd yn y nefoedd – mae'r weddi'n cychwyn gyda *Duw* nid *ni* ac yn sicr nid gyda *fi*. Gall ein gweddi'n aml fod yn hunan-ganolog lle rydym yn rhoi ein hunain yn gyntaf. Y mae gweddi gyhoeddus yn dechrau gyda Duw yn y canol. Pan oeddem yn fyfyrwyr yn y coleg – ambell i nos Sul roedd criw ohonom yn mynd i oedfa gyda'n gilydd. Y rhan fwyaf o Suliau roeddem yn mynd i bregethu i eglwysi ar hyd a lled gogledd Cymru ond weithiau roedd cyfle i wrando ar eraill. Wedi'r oedfaon hynny roeddem yn trafod y bregeth a cheid sylwadau fel, 'pregeth dda, effeithiol a chofiadwy.' Dro arall rhoddid sylwadau negyddol fel 'roedd wedi tynnu'r adnod allan o'i chyd-destun. Nid oedd wedi ystyried y paragraff blaenorol na'r cyd-destun hanesyddol.'

Ond y gwir yw ein bod yn aml yn cymryd ein bywydau allan o'r cyd-destun cywir sef ein perthynas gyda Duw. O ganlyniad rydym yn rhoi Duw yng nghyd-destun ein bywydau ni yn hytrach na'n bywydau ni yng nghyd-destun Duw. Mae gweddi'r Arglwydd yn dechrau gyda Duw ac felly mae unrhyw beth sy'n dilyn yn seiliedig ar hynny. Ef yw'r man cychwyn, nid ni.

Nid tad arferol yw Duw ond Tad sydd yn y nefoedd. Mae hyn yn golygu ei fod yn dragwyddol, yn sanctaidd ac yn berffaith. Ond nid yw wedi ei gyfyngu i'r nefoedd ond y mae hefyd yn holl bresennol yn y cread a chyda'i bobl bob amser. Ac wrth gwrs yr addewid yw ein bod ni trwy Iesu yn cael mynediad at Dduw. Mae'r geiriau *ein Tad* yn dangos ei agosatrwydd a'i ofal a'r geiriau *yn y nefoedd* yn awgrymu ei fawredd a'i sancteiddrwydd. Y cymal nesaf yw: 'Sancteiddier dy enw.'

dyn ni eisiau i dy enw di gael ei anrhydeddu.

beibl.net

Yn yr hen ddiwylliant dwyreiniol roedd enw person yn mynegi ei natur a'i bersonoliaeth. Gwelwn yn aml yn y Beibl pan oedd rhywbeth pwysig yn digwydd i rywun roeddent yna yn newid eu henwau. Abram i Abraham, Jacob i Israel. Yn yr un modd mae'r enwau a roddir ar Dduw yn mynegi ei natur. Elohim, Elyonm Adonai, Iehofa – ydwyf yr hyn ydwyf. Ystyr y cymal hwn yng ngweddi'r Arglwydd ydy ein bod am barchu, addoli, caru, anrhydeddu Duw uwchlaw popeth. A dyma yw dymuniad ei bobl, bod ein Tad nefol yn cael ei anrhydeddu gan y greadigaeth i gyd ar hyd a lled y byd a chan yr holl genhedloedd.

Ac rydym ni ein hunain am anrhydeddu Duw yn ein bywyd a'n haddoliad. Wrth orfoleddu yn ei gariad achubol yn Iesu Grist, wrth sylwi ar ryfeddodau'r cread, wrth werthfawrogi Ei gariad a'i haelioni, wrth fod gyda'n teuluoedd, wrth wneud ein gwaith, wrth hamddena, rydym am anrhydeddu enw Duw. Dyma yw cyd-destun ein bywyd beunyddiol, nid ni ein hunain.



# Barn Annibynnol

## Y diflanedig rai

Os yw coeden yn syrthio yn y goedwig a neb yno i'w chlywed hi, ydy hi'n gwneud sŵn wrth daro'r llawr? Dyna un o'r cwestiynau y mae athronwyr wedi ymgiprys gydag ef ers cantoedd. Wel, nawr mae gen i gwestiwn i ni fel Cymry (athronyddol) ...

Os ydyn ni fel cenedl leiafrifol, sy'n siarad iaith leiafrifol, yn peidio â chlywed ein llais ni ein hunain, a ydyn ni'n bodoli o gwbl? Bois, mae'n ben-set. Fe glywson ni'n ddiweddar fod nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng, efallai ein bod ni'n ceisio osgoi'r gwir am hyn. Mae'n llais ni'n bygwth mynd yn ddistawach, un sibrydiad ar y tro, nes ... nes ... bydd dim ar ôl.

### Profiad lleiafrifol 100%

Wrth gwrs, i ni sy'n siarad Cymraeg, dydy ein profiad ni ddim yn un lleiafrifol hynny yw, pan ry'n ni'n siarad Cymraeg, ry'n ei siarad hi 100% ac felly mae ein profiad ni'n un hollol gyflawn – yn fwyafrifol – ar lefel bersonol, unigol. Ond, wrth gwrs, dydy pethau lleiafrifol ddim yn gwneud elw yn y byd global, mega hwn. Dydy pethau lleiafrifol ddim yn gwneud synnwyr mewn oes gyfalafol, fasnachol, sdim digon ohonon ni, ac felly ddylsen ni ddim bodoli, am nad ydyn ni'n gwneud digon o 'elw'. Ar un lefel felly, mae'n syndod ein bod ni cystal, yn wlad fechan ar gyrion cyrion Ewrop, ac yn iaith leiafrifol o fewn i'r wlad fechan honno, mae'n rhyfeddod ein bod ni yma o gwbl. Achos yma yr ydyn ni. O hyd.

Erbyn heddiw felly, mae'r weithred o siarad Cymraeg yn fwy llwythog gydag ystyr nag erioed o'r blaen. Nid dim ond iaith rydyn ni'n digwydd ei siarad am i ni gael ein geni iddi yw hi, ond mae ei siarad hi'n rhywbeth yr ydym ni'n *dewis* ei wneud, bob dydd. Yn y siop. Ar y stryd. Yn y gwaith. Gyda'n teulu. Os ydyn ni'n siarad Cymraeg, rydyn ni'n neud rhywbeth sy'n ots i weddill y byd ac mae hynny'n weithred fechan o wrthryfel yn erbyn y peiriant cyfalafol byd eang.

### Colli iaith

Mae'n adeg Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf, ac fe wyddom i'r Gymraeg ddiflannu i bob pwrpas yng nghymoedd diwydiannol y de am i bobl wneud penderfyniad i *beidio* â siarad Cymraeg. Rwy'n gwybod fod hyn yn wir am i 'nheulu i yn y Rhondda, teuluoedd fy mam a fy nhad, *ddewis* dal ati i'w siarad hi ar adeg pan oedd pawb o'u cwmpas naill ai wedi neu wrthi'n rhoi'r gorau i wneud hynny. Cawsant eu hystyried yn bobl hen ffasiwn, yn rhyfedd, yn lletchwith a stwbwrn ... yn ffyliaid. Ac mae'n wir i ddweud bod twf ysgolion Cymraeg yn y cymoedd yn dyst i'r ffaith fod cymdeithas yno wedi gweld mai camgymeriad oedd gollwng gafael ar yr iaith wedi'r cwbl. Erbyn hyn, efallai fod yr iaith wedi cyrraedd yr ystafelloedd dosbarth, ond dydy'r Gymraeg ddim wedi gwreiddio'n gyflawn 'nôl yn naturiol yn y cymunedau, ar y stryd, yn y siop nac yn y gwaith. Ymddengys fod yr ymdrech i gaffael y Gymraeg yn llwyr eto'n cymryd ddwywaith, deirgwaith yr ymdrech.

Felly, ni bobl sy'n siarad y Gymraeg o'r crud, ni bobl sydd wedi dysgu'r Gymraeg ein hunain, ydyn ni am ddiflannu? Ydyn ni am dorri'r arfer a jyst mynd gyda'r prif-lif uniaith am ei fod yn haws na mynd yn erbyn y llif hwnnw? Ac os ydyn ni'n siarad yr iaith ar lafar, beth am ei harfer hi mewn print? Ble welwn ni'r Gymraeg wedi'i hargraffu? Os na welwn ni'r iaith wedi'i hysgrifennu ar bapur, ydy hi'n bodoli?

### Gwnewch bopeth yn Gymraeg

Ac yn olaf, fel Cristnogion, beth am ein harferion addoli ni? Mae ein profiad o'n perthynas ni â Duw'n digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg, rydyn ni'n addoli yn Gymraeg. Beth os beidiwn ni â gwneud hynny achos bod ein niferoedd ni'n gostwng gymaint fel ei bod hi'n well rhoi'r gorau iddi? Sut fyddwn ni'n siarad â Duw wedyn? Beth am ein tystiolaeth Gristnogol ni drwy gyfrwng y Gymraeg ymysg ein gilydd – ar lafar ac mewn print?

Mae gennym ni lawer i gnoi cil drosto fel Cymry Cymraeg, ond i ni beidio â chloffi wrth feddwl gormod, na chael ein trymlwytho gan y cwestiynau. *Ac*, er gwaetha'r hyn wy'n ei holi uchod, nid baich yw iaith, cyfrwng mynegiant ydyw, a dylem geisio gwisgo'r Gymraeg yn ysgafn a jyst ei defnyddio hi o ddydd i ddydd, bob dydd, bob cyfle gawn ni, yn ein bywydau arferol, ar achlysuron arbennig, wrth i ni fynd o gwmpas yn byw er mwyn ei chadw'n ystwyth ac yn iaith at iws. Dyw'r Gymraeg yn werth dim i neb mewn amgueddfa. *Use it or lose it*. Achos, wy'n gweud wrthoch chi nawr, os aiff y Gymraeg yn ddiflanedig, yna bydd hi'n ddeng gwaith anoddach i'w chael hi 'nôl. Meddyliwch am hyn, sneb yn gweld y dodo abythdi'r lle y dyddie 'ma, o's e ...?

**Elinor Wyn Reynolds**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.).)

# Drws Agored

Roedd o leiaf dau fwriad gan aelodau Ebeneser, Caerdydd, wrth iddynt gynnal digwyddiad Drws Agored yn ddiweddar yng nghapel y Methodistiaid yn yr Eglwys Newydd.

### Ymgysylltu

Y bwriad cyntaf oedd ymgysylltu yn well gyda'r gymuned yn y pentref ac yn wir gyda Chymry Cymraeg ar hyd a lled y ddinas. Y mae hon yn broses sy'n datblygu ac yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Gwerthwyd capel eglwys Ebeneser, oedd yng nghanol dinas Caerdydd 12 mlynedd yn ôl a bellach rydym yn cynnal ein gweithgareddau mewn tri lleoliad. Y mae gennym bresenoldeb wythnosol yn yr Eglwys Newydd ac yn raddol rydym yn dod fwyfwy yn rhan o'r gymuned e.e. yn ystod mis Mehefin fe ddosbarthwyd 10 mil o daflenni – a gynlluniwyd gan Carys Mair Jones – yn hysbysebu ein gweithgareddau. Roedd y Drws Agored yn rhan o'r datblygiad hwn.

*parhad ar y dudalen gefn*





*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**
**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,**
**Caerdydd, CF23 9BS**
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru**

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**
**Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**
**ABERTAWE SA7 0AJ**
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru**

*Dalier Sylw!*

**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.**

# Cadw Dyddiadau: Cymdeithas Annibynwyr y Byd

Byddwch yn cofio i'r pandemig effeithio'n drwm ar weithgarwch y Gymdeithas ac i'r gynhadledd oedd i'w chynnal yn Boston, UDA i ddathlu 400 mlwyddiant glaniad y tadau pererin yn 1620 gael ei chanslo.

Ymunodd amryw yn y gynhadledd undydd, rithiol a gynhaliwyd yn 2021 gan werthfawrogi'r arlwy gyfoethog o gyflwyniadau a gafwyd. Pellter y daith i Fiji, yn anad un dim arall, a gadwodd yr Annibynwyr o Gymru o gynhadledd 2023.

Bellach, y mae'n llawenydd datgan bod cynhadledd yn cael ei threfnu ar gyfer 2025, i'w chynnal yn Thesaloniki yng ngwlad Groeg , 22–26 Mai. Cost y gynhadledd fydd oddeutu $1350 heb gynnwys costau teithio.

Disgwyliwn yn eiddgar am fanylion pellach.

# BEIBLAU I BAWB

Pleser gan gapeli ac eglwysi Cymraeg tref Caerfyrddin barhau'r arferiad blynyddol o gyflwyno copi yr un o'r Beibl i flwyddyn 5 ysgol gynradd Gymraeg y Dderwen a blwyddyn 4 ysgol gynradd Gymraeg Llangynnwr. Ariannwyd y Beiblau gan gasgliad Oedfaon Gŵyl Dewi Undebol Cymraeg Caerfyrddin 2024 a gynhaliwyd eleni yng nghapel Heol Awst yn y bore ac eglwys San Pedr yn yr hwyr. Dyma'r Parchg Beti-Wyn James, cadeirydd Pwyllgor Oedfaon Gŵyl Dewi y dref yn cyflwyno'r Beiblau a hefyd gydag aelodau o dîm Agor y Llyfr yn ysgol Llangynnwr



*Ysgol y Dderwen*




*Ysgol Llangynnwr*

# Drws Agored – *parhad*

### Codi arian

Yr ail fwriad oedd codi arian tuag at ddwy elusen sef Money for Madagascar a Ffynhonnau Byw, Undeb yr Annibynwyr. Y llynedd bu farw un o hoelion wyth Ebeneser sef yr annwyl Eira Jones. Dros y degawdau fe fu hi'n ddiwyd yn cynhyrchu cannoedd o frwydweithiau (*embroidery*) cain o arddulliau amrywiol. Roedd rhai ohonynt yn dynodi achlysuron arbennig, eraill yn adnodau, eraill yn bobl ac eraill drachefn yn wrthrychau neu olygfeydd. Yn ystod y Drws Agored gwerthwyd y crefftweithiau hyn, a chan y bu Eira ym Madagascar gyda'r genhades Gwyneth Evans, pa elusen fwy cymwys i gyfrannu tuag ati na Money for Madagascar.

Diolch i bawb o'r aelodau fu wrthi'n ddiwyd yn pobi cacennau, gweini paneidiau a gosod y byrddau, a braf oedd cael croesawu ymwelwyr i'n plith. Edrychwn ymlaen ar y Drws Agored nesaf.



*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*